OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

*Gwrandawiadau a phenderfyniadau*

**Gohirio gwrandawiad cyn ei gychwyn**

**51.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, naill ai ar gymhelliad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hunan neu ar gais parti, mewn amgylchiadau eithriadol, wneud gorchymyn i ohirio gwrandawiad cyn ei gychwyn.

(2) Rhaid i gais gan barti o dan baragraff (1)—

(a) cael ei wneud mewn ysgrifen, gan ddatgan y rhesymau yn llawn;

(b) dod i law Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a chael ei gyflwyno gan y ceisydd i'r parti arall, o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

(3) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi i'r partïon ddim llai na 5 niwrnod gwaith (neu ba bynnag gyfnod byrrach a gytunir gan y partïon) o rybudd o ddyddiad y gwrandawiad newydd.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) sy'n gosod rhwymedigaeth ar Ysgrifennydd y Tribiwnlys i ymgynghori ag unrhyw berson nad oes hawl ganddo i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, nac anfon hysbysiad at unrhyw berson o'r fath.